**Datganiad polisi cymwysterau cyfrwng Cymraeg**

Mae CBAC wedi ymrwymo i gynnig yr un ddarpariaeth cymwysterau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Cymwysterau CBAC

- Mae pob un o gymwysterau CBAC ar gael yn llawn yn y Gymraeg a'r Saesneg (onid Cymraeg neu Saesneg yw'r pwnc).
- Ystyr hyn yw bod y fanyleb, deunyddiau asesu enghreifftiol, deunyddiau asesu byw a'r holl ddogfennaeth ategol ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Mae asesiadau byw ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac nid oes angen i ganolfannau ofyn amdanyn nhw cyn cofrestru ymgeiswyr i'w hasesu.

Cymwysterau Eduqas

- Mae asesiadau byw ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer pob cymhwyster Eduqas wedi'i ddynodi gan Cymwysterau Cymru.
- Bydd CBAC yn anfon e-bost at bob canolfan yng Nghymru bob blwyddyn yn cynnwys cyswllt at ffurflen i'w defnyddio i wneud cais am bapurau arholiad cyfrwng Cymraeg ar gyfer y gyfres haf ddilynol – mae angen i'r canolfannau ddychwelyd y ffurflenni wedi'u llenwi erbyn terfyn amser ym mis Tachwedd.
- Mae'r fanyleb a'r deunyddiau asesu enghreifftiol ar gael hefyd yn y Gymraeg a’r Saesneg ar gyfer y cymwysterau Eduqas canlynol, sy'n golygu bod y cymwysteru hyn ar gael yn llawn drwy gyfrwng y Gymraeg:
    - TGAU (9-1) mewn Cymdeithaseg
    - TGAU (9-1) mewn Astudiaethau Ffilm
    - TGAU (9-1) mewn Electroneg
    - TAG Uwch mewn Electroneg
- O ran y cymwysterau canlynol, nid oes galw hanesyddol wedi bod amdanyn nhw gan ganolfannau cyfrwng Cymraeg. Mae asesiadau byw ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg fel yr amlinellwyd uchod, ond ni chafodd y fanyleb a/neu'r deunyddiau asesu enghreifftiol eu darparu'n flaenorol drwy gyfrwng y Gymraeg:
    - TAG Uwch Gyfrannol mewn Electroneg (manyleb cyfrwng Cymraeg ar gael)
    - TGAU (9-1) mewn Lladin
    - TGAU (9-1) mewn Daeareg
    - TAG Uwch Gyfrannol mewn Daeareg
    - TAG Uwch mewn Daeareg
    - TAG Uwch Gyfrannol mewn Astudiaethau Ffilm
    - TAG Uwch mewn Astudiaethau Ffilm
- Fodd bynnag, mae CBAC yn ymrwymo i ddarparu popeth sydd wedi'i ddynodi o ran Eduqas yn Gymraeg yn llawn yn y dyfodol. Felly, o fis Medi 2025, yn ogystal â darparu asesiadau byw drwy gyfrwng y Gymraeg, cyhoeddir y fanyleb a deunyddiau asesu enghreifftiol yn Gymraeg ar ein gwefan (onid yw'r rhain yn gymwysterau sydd i'w tynnu'n ôl o fewn y ddwy flynedd nesaf yn rhan o broses ddiwygio cymwysterau).
- Yn y dyfodol, pan fydd Cymwysterau Cymru yn dynodi cymhwyster Eduqas newydd, byddwn yn darparu'r cymhwyster yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd.